| | | |
|---|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol<br>Recognition of Prior Learning Policy | |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 | |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students | |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *CDB - Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Gymraeg Cam 1*<br>*CDB - Welsh and E&D Impact Assessment Stage 1* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen: Document Owner:** | *Is-Bennaeth - Ansawdd*<br>*Vice Principal - Quality* | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | *Tîm Ansawdd*<br>*Pwyllgor Llywio Dysgu yn y Gwaith*<br>*Deon Addysg Uwch*<br><br>*Quality Team*<br>*WBL Steering Group*<br>*Dean of HE* | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *07/09/22* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *n/a* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *n/a* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *n/a* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *n/a* |
| **Dyddiad Adolygu: Review Date:** | 07/09/25 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph



**Tabl Cynnwys**

**Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol**


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Cwmpas | 3 |
| 3. Deddfwriaeth | 4 |
| 4. Y Broses | 4 |
| 5. Addysg Uwch | 4 |
| 6. Apeliadau | 4 |




**Cyflwyniad**

1.1 Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddull cynhwysol o asesu dysgu, gan gynnwys cydnabod dysgu a/neu gyflawniad blaenorol. Mae'r Coleg yn annog y defnydd o Gydnabod Dysgu Blaenorol ac yn caniatáu i bob dysgwr gyflwyno unrhyw ddysgu perthnasol (a gafwyd naill ai'n anffurfiol neu'n ffurfiol) fel y gellir ei asesu yn erbyn eu cymhwyster neu raglen ddysgu.

1.2 Bydd y Coleg yn sicrhau bod y broses asesu ar gyfer Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB) yn ddarostyngedig i'r un safonau sicrhau ansawdd a monitro ag unrhyw fath arall o asesu.

1.3 Cydnabod Dysgu Blaenorol (CDB) yw: dull asesu (sy'n arwain at ddyfarnu credyd) sy'n ystyried a all dysgwyr ddangos eu bod yn gallu bodloni'r gofynion asesu ar gyfer uned drwy wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau sydd ganddynt eisoes ac nad oes angen iddynt felly eu datblygu trwy gwrs dysgu. Trefniadau rheoleiddio ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau a Chredyd (Ofqual/08/3726)

1.4 Mae'r Coleg yn cydnabod bod y CDB yn galluogi cydnabyddiaeth o gyflawniad o ystod o weithgareddau gan ddefnyddio unrhyw fethodoleg briodol. Ar yr amod bod gofynion asesu uned neu gymhwyster penodol wedi'u bodloni, mae'r defnydd o CDB yn dderbyniol ar gyfer achredu uned neu gymhwyster cyfan. Rhaid i dystiolaeth o ddysgu fod yn ddilys ac yn ddibynadwy (gweler 5.6)

1.5 Nid yw CDB fel arfer yn cael ei ddefnyddio i ddarparu tystiolaeth yn erbyn cyflawniad ar gyfer cymhwyster cyfan.

1.6 Mae CDB yn cynnwys:

● Achrediad o ddysgu ardystiedig blaenorol (*APCL*) - cymwysterau neu gredydau academaidd a gwblheir trwy gymhwyster arall a/neu mewn sefydliad addysgol arall ● Achrediad o ddysgu drwy brofiad blaenorol (APEL) - a gyflawnir y tu allan i systemau addysg a hyfforddiant ffurfiol (e.e. profiad gwaith / bywyd), neu drwy gyrsiau nad ydynt yn dyfarnu credydau fel hyfforddiant mewnol.

**Cwmpas**

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i gymwysterau ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF), y Fframwaith Cymwysterau a Chredyd (FfCCh) a fframweithiau cenedlaethol eraill, cymwysterau hunan-reoledig a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) ar gyfer Addysg Uwch. Fodd bynnag, lle mai dim ond trwy arholiad cenedlaethol y ceir tystiolaeth o ddysgu, mae'n ofynnol i'r dysgwr sefyll yr arholiad. Er enghraifft, nid yw cymwysterau cyffredinol fel TGAU neu TAG o fewn cwmpas y polisi hwn.

2.2 Mae'r broses CDB yn galluogi dysgwr i ddangos sut y mae wedi caffael y wybodaeth, y ddealltwriaeth neu'r sgiliau, ond nid yw'n golygu bod y dysgwr wedi'u heithrio o'r asesiad. Bydd angen i'r dysgwr gynhyrchu tystiolaeth sy'n bodloni gofynion rhan neu'r cyfan o'r cymwysterau y maent yn gweithio tuag atynt. Gellir cyflwyno'r dystiolaeth hon o addysg a hyfforddiant blaenorol, gweithgareddau gwaith, gweithgareddau cymunedol neu wirfoddol neu fywyd domestig/teuluol.



**Deddfwriaeth**

3.0 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i weithrediad y polisi hwn.

**Y Broses**

4.1 Mae angen i'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno gael ei hasesu gan staff perthnasol y ganolfan er mwyn sicrhau ei bod yn ddilys, yn ddibynadwy, yn gywir ac yn ddigonol. Gallai dulliau asesu gynnwys; archwilio dogfennau, tystiolaeth tyst arbenigol, cyfrifon myfyriol neu drafodaethau. Mae'r aelod staff perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth asesu ar gyfer pob cymhwyster yn dal i gael ei glynu wrthi.

4.2 Mewn perthynas ag Addysg Bellach a Phrentisiaethau rhaid i unrhyw CDB fodloni'r gofynion Cyrff Dyfarnu perthnasol yn gyntaf. Rhaid i'r Rheolwr Ansawdd a Chydymffurfiaeth wirio hyn yn y lle cyntaf.

4.3 Dylai’r broses CDB gael ei chynnal fel a ganlyn:

○ Mae aelod o staff perthnasol yn cynllunio gyda’r dysgwr
○ Mae’r dysgwr yn cyflwyno tystiolaeth ac yn esbonio sut mae’n ymdrin â meini prawf
○ Mae aelod perthnasol o staff yn gwneud penderfyniad asesu gyda chefnogaeth y Dilysydd Mewnol (DM) enwebedig. Dylid ymgynghori â'r Rheolwr Ansawdd a Chydymffurfiaeth os oes angen cymorth ar yr aelod staff i wneud y penderfyniad

asesu.
  - Adborth yn cael ei roi i'r dysgwr
  - Caiff cofnodion priodol eu cadw a hysbysir y Rheolwr Arholiadau o'r canlyniad i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cofnodi'n gywir.

4.4 Dylai CDB gael ei drafod a'i nodi yn y cam recriwtio ac ymsefydlu.

4.5 Gellir ystyried prosesau eraill hefyd fel rhan o'r broses CDB: Eithriadau, Unedau Cyfwerth, Crynhoi a Throsglwyddo Credyd, Etifeddu Cymwysterau, ac Unedau a Rennir.

**Addysg Uwch**

5.1 Ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â chyrsiau Addysg Uwch, glynir wrth Reoliadau a Phrosesau Academaidd Partner perthnasol y Brifysgol.

5.2 Fodd bynnag, bydd cymwysterau Cenedlaethol Uwch neu gymwysterau cyfatebol yn dilyn y broses a amlinellir yn y polisi hwn a thrwy'r rheoliadau a amlinellwyd gan Pearson.

5.3 Dylai'r Bwrdd Asesu gadarnhau holl benderfyniadau'r CDB a'u cofnodi; dylid cadw cofnodion o'r dystiolaeth ar gyfer penderfyniad/au CDB.

**Apeliadau**

6.1 Gall y dysgwr ddefnyddio'r broses Apelio berthnasol sy'n gysylltiedig â'u dyfarniad penodol os ydynt yn anhapus gyda'r penderfyniad asesu. Gall dysgwyr gysylltu â thiwtor a, lle bo angen, gall yr aelod o staff gysylltu â'u rheolwr atebol am gymorth.